# Merthyr Tudful
# Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)
# ARCHWILIAD

[www.merthyr.gov.uk/ldpexamination](http://www.merthyr.gov.uk/ldpexamination)

## AGENDA

## for

## Gwrandawiad 7: Mer 3 Gorff 2019 am 10:00

**MATER 7: POLISÏAU AR GYFER RHEOLI DATBLYGIADAU**

**Sylwadau a chyflwyniadau agoriadol**

### 7.1. Mannau Agored a Gwarchodfeydd Natur Lleol (polisi SW10)

a. A yw polisi SW10 yn berthnasol i bob man agored neu i'r rhai a nodwyd ar y Map Cyfyngiadau yn unig? Gan fod y Cyngor wedi cynnig addasiadau sy'n egluro statws anstatudol y Map Cyfyngiadau[1], a ddylid nodi'r mannau agored hyn ar y Map Cynigion?

b. A yw'r safonau ar gyfer mannau agored wedi'u mynegi'n ddigon clir yn y Strategaeth Mannau Agored[2] ac/neu a ddylid eu crynhoi o fewn y Cynllun ei hun?

c. Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol wedi'u dynodi o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

   i. Yng ngoleuni hyn, beth yw pwrpas ail ran polisi SW10?

   ii. A oes tystiolaeth bod y Gwarchodfeydd Natur Lleol arfaethedig yn debygol o gael eu dynodi'n Warchodfeydd Natur Lleol o dan Ddeddf 1949 o ran nodweddion cymhwyso a pherchnogaeth tir?

   iii. A ddylid diffinio Gwarchodfeydd Natur Lleol ar y Map Cyfyngiadau yn hytrach na'r Map Cynigion?

d. A oes modd cyfiawnhau ac amddiffyn ffiniau'r mannau agored dynodedig a'r Gwarchodfeydd Natur Lleol?

e. A fyddai monitro dangosydd 5.4 yn helpu i werthuso effeithiolrwydd polisi SW10?

### 7.2. Dylunio cynaliadwy a chreu lleoedd (polisi SW11)

a. Mae Polisi SW11 yn rhestru 11 o feini prawf *y bydd yn ofynnol* i ddatblygiadau newydd eu bodloni [fy mhwyslais i] waeth beth yw graddfa neu natur y cynnig. A yw geiriad y polisi yn ddigon hyblyg, yn enwedig o gofio y byddai caniatáu un cais yn groes i'r polisi, yn tramgwyddo targed monitro 6.1?

b. A yw'r gofyniad o dan faen prawf (4) i "gyfrannu at ddarparu seilwaith gwyrdd" wedi'i gyfiawnhau ym mhob achos, gan gynnwys, er enghraifft, newid defnydd?

c. A fyddai awgrymiadau'r Cyngor i newid maen prawf (4) a pharagraff 6.5.72[3] yn egluro'n ddigonol y modd y byddai'r ystyriaethau cynllunio ar gyfer draenio cynaliadwy a defnyddio tir, yn cael eu cloriannu gan yr awdurdodau perthnasol?

---

[1] Ymateb y Cyngor i Lythyr Cychwynnol yr Arolygydd [ED007]
[2] Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful Mehefin 2016 [SD47]
[3] Ymateb y Cyngor i Lythyr Cychwynnol yr Arolygydd [ED007]

## 7.3. Yr amgylchedd hanesyddol (polisi CW1)

a. A yw paragraff cyntaf polisi CW1 ond yn gymwys i asedau hanesyddol *a ddynodwyd* ac a yw'r ail baragraff ond yn gymwys i asedau *nas dynodwyd*? Os felly, a ddylid egluro hyn, gan gynnwys y cyfeiriad ym mharagraff 6.6.8 at ddatganiadau o arwyddocâd[4]?
b. Mae paragraff 6.6.16 yn cyfeirio at "restr leol" bosibl o strwythurau heb eu dynodi. A fyddai polisi CW1 yn rhoi lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer asedau o'r fath?
c. A yw'n ddigon clir sut y byddai polisi CW1 yn cefnogi cynigion a allai sicrhau goroesiad yr asedau hanesyddol neu ddarparu dyfodol economaidd cadarn ar eu cyfer[5]?
d. Mae'r polisi'n datgan bod "yn rhaid" i ddatblygiad o fewn Ardaloedd Nodweddion Trefol "ystyried eu cymeriad arbennig".
   i. A yw'r dystiolaeth[6] yn cyfiawnhau'r lefel hon o ddiogelwch polisi?
   ii. A yw geiriad y polisi yn ddigon hyblyg o ystyried y byddai caniatáu un cais yn groes i'r polisi, yn tramgwyddo targed monitro 9.2?
e. A yw nodi dwy Dirwedd Hanesyddol fel "asedau amgylcheddol dynodedig" ym mharagraff 6.6.6 yn gyfiawn ac yn gyson â chanllawiau polisi cenedlaethol[7]?
f. A ddylai paragraff 6.6.10 nodi y dylai cynigion o fewn Tirweddau Hanesyddol gael eu hategu gan asesiadau cymeriad *lle bo'n briodol*?
g. A ddylai'r fframwaith monitro gynnwys dangosydd ar gyflwr asedau hanesyddol (os yw'r wybodaeth honno ar gael)?

## 7.4. Polisïau eraill

a. A yw'r polisïau canlynol yn ddigon clir ac a oes modd iddynt gael eu gweithredu'n effeithiol:
   i. Polisi EcW14 (Cyfleusterau Gwastraff)?
   ii. Polisi SW13 (Gwarchod a Gwella Cyfleusterau Cymunedol)

## 7.5. Unrhyw faterion eraill

[4] Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 "Yr Amgylchedd Hanesyddol" paragraffau 1.12 a 1.15
[5] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (PCC) paragraff 6.1.11
[6] Merthyr Tudful: Deall Nodweddion Trefol [SD39]
[7] TAN 24 paragraffau 7.6 i 7.8 ac Atodiad D